ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Gorchymyn (Dirymu) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau)(Cymru) 2002 2005 a Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005

Bu'r Pwyllgor yn ystyried *Gorchymyn (Dirymu) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau)(Cymru) 2002 2005 a Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005* yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2005.

Cafwyd trafodaeth lle codwyd y pwyntiau canlynol:

- y gwahaniaeth rhwng sefyllfa sy'n 'argyfwng' yn atodlen 2 y Gorchymyn a'r amgylchiadau arferol lle defnyddir llety dros dro;
- absenoldeb Dangosyddion Perfformiad Strategol Cenedlaethol (NS PI) mewn perthynas ag addysg gynradd;
- croesawyd yr NS PI ar addysg cyfrwng Cymraeg, ond roedd angen dangosyddion mwy penodol yn y setiau data craidd er mwyn adlewyrchu ymhellach ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn *Iaith Pawb* i brif ffrydio'r iaith Gymraeg yn y broses o ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau;
- nifer y setiau data craidd a argymhellwyd a'r angen i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth bwrpasol am berfformiad sy'n helpu i asesu gwelliant.

Dyma oedd yr ymateb i'r pwyntiau hyn:

- roedd y term 'argyfwng' yn cael ei ddiffinio yn adran 189 o Ddeddf Tai 1996. Byddai teuluoedd yn cael eu hepgor o'r dangosydd dim ond os oeddent mewn llety dros dro o ganlyniad i argyfwng o'r fath. Serch hynny, byddent yn cael eu cynnwys yn y dangosydd os oeddent yn parhau i fod mewn llety o'r fath ar ôl i'r argyfwng gael ei ddatrys;
- roedd yr NS PI yn un o nifer o ddulliau a ddefnyddir i fesur perfformiad awdurdodau lleol;
- ar hyn o bryd defnyddir dau ddangosydd i fesur perfformiad yng nghyfnod allweddol 2, sy'n dod i ben yn y flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd;
- ymgynghorwyd yn llawn â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar yr NS PI ac roeddent yn fodlon â'r dangosydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd swyddogion yn parhau i drafod y setiau o ddangosyddion craidd anstatudol â'r Bwrdd;
- byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o gynnwys dangosyddion ar gyfer addysg cyn ysgol ac addysg babanod;
- roedd llawer o'r wybodaeth am berfformiad yn cael ei chasglu gan ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau ar hyn o bryd. Nid oedd yn fwriad i roi gormod o faich ar yr awdurdodau lleol.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Gorchymyn drafft heb ei ddiwygio.

Ann Jones AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus